Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg a Chymorth i Deuluoedd

**ADRAN:** Cymorth i Deuluoedd / Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

**SWYDD:** Uwch-ymarferydd - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

**GRADD Y SWYDD:** GR12

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Strategol – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen yn y ddalfa.

Cynorthwyo llywodraethwyr wrth fodloni eu dyletswyddau statudol o dan adran 11 o Ddeddf Plant 2004 ac (yng Nghymru) rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Plant a Phobl Ifanc mewn Sefydliadau Diogel.

Sicrhau bod awdurdodau lleol yn bodloni eu cyfrifoldebau eu hunain tuag at blant yn y ddalfa yn unol â Deddf Plant 1989 a deddfwriaeth ddilynol.

Bod yn rhan o'r uwch dîm rheoli gan sicrhau bod asesu a chynllunio risg yn asesu'r risg o aildroseddu, diogelwch a llesiant yn ogystal â risg o niwed difrifol i eraill ac yn mynd i'r afael â hyn. Cynorthwyo'r Rheolwyr Gweithredol wrth barhau i ddatblygu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid o ansawdd uchel.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Datblygu cysylltiadau strategol a pherthnasoedd gwaith effeithiol rhwng CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a'r holl ddarparwyr gwasanaethau perthnasol e.e. Awdurdodau Lleol, Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, Addysg, Iechyd, yr Heddlu a Gwasanaethau Prawf.
- Datblygu a chynnal partneriaethau effeithiol rhwng CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac Awdurdodau Cartref mewn perthynas â phobl ifanc yn y ddalfa er mwyn diwallu anghenion a nodwyd y bobl ifanc a hyrwyddo eu gofal a'u hadsefydlu yn eu cymuned.
- Hwyluso rhyngweithio'r awdurdod lleol â phobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu wedi derbyn gofal, neu sy'n derbyn gwasanaethau gan eu hawdurdod lleol cartref, ac adolygiadau ohonynt. Yn benodol, bydd y

gweithiwr cymdeithasol yn gweithio i sicrhau bod y bobl ifanc hynny yn derbyn y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt drwy statud.

- Mynychu a darparu adroddiadau cynnydd i adolygiadau perthnasol Plant sy'n Derbyn Gofal a Chynlluniau Llwybr.
- Sicrhau bod pobl ifanc sy'n gwneud honiadau am gam-drin sydd wedi digwydd yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc neu cyn iddynt fynd i'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc yn cael eu hatgyfeirio i Ganolfan Ddiogelu Amlasiantaethol (MASH) Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Cymryd rhan mewn trafodaethau strategaeth, grwpiau craidd neu gynadleddau achos a gynhelir mewn perthynas â phobl ifanc yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc a darparu adroddiadau ar hyn.
- Hwyluso ymholiadau Adran 47 a gynhelir gan y MASH a darparu unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol i gynorthwyo ymchwiliadau.
- Cynnal Asesiadau Cychwynnol o'r bobl ifanc hynny y nodwyd eu bod o bosibl angen Gwasanaethau Gofal a Chymorth ar ôl cael eu rhyddhau.
- Sicrhau bod y bobl ifanc a nodir fel plentyn mewn angen yn cael eu hatgyfeirio i'r awdurdod lleol y bydd y person ifanc yn byw ynddo ar ôl cael ei ryddhau.
- Cyfrannu at gyfarfodydd remand a chynllunio dedfrydu perthnasol a chynllun y plentyn er mwyn sicrhau ailsefydlu a lleihau aildroseddu.
- Gweithio ochr yn ochr ag uwch reolwyr Sefydliadau Troseddwyr Ifanc i sicrhau bod yr holl faterion diogelu'r cyhoedd yn cael eu hystyried ac yr eir i'r afael â nhw o dan weithdrefnau perthnasol.
- Gweithio ochr yn ochr ag uwch reolwyr Sefydliadau Troseddwyr Ifanc i sicrhau bod asesiadau a chynlluniau Diogelwch a Llesiant yn eu lle ar gyfer pobl ifanc, a'u cyfathrebu i staff perthnasol, gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid allanol.
- Cynnal cofnodion a llunio adroddiadau fel sy'n ofynnol gan CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Gweithio ochr yn ochr â'r gweithiwr achos Sefydliad Troseddwyr Ifanc/gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod y sefydliad wedi sefydlu systemau i nodi statws cyfreithiol pobl ifanc ar ôl cyrraedd Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a darparu gwybodaeth a chymorth i bob newydd-ddyfodiad drwy broses sefydlu Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.
- Gwybod y diweddaraf am ymchwil, datblygu a lledaenu gwell dealltwriaeth o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, darparu cymorth proffesiynol ac arweiniad i gydweithwyr yn y gyfarwyddiaeth ac asiantaethau eraill fel y bo'n briodol.
- Cynnal datblygiad personol a phroffesiynol i fodloni gofynion newidiol y swydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu priodol ac annog a chynorthwyo datblygiad proffesiynol parhaus pobl eraill.
- Cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu a diweddaru polisïau a gweithdrefnau diogelu plant yn CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc.
- Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, safonau arfer a pherfformiad staff.
- Meddu ar lwyth achosion bach sy'n cynnwys achosion sensitif, risg uchel a chymhleth o bobl ifanc sy'n agored i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid lle bo angen.

- Cwblhau asesiadau risg dadansoddol i safon uchel a monitro ansawdd asesiadau sy'n cael eu paratoi gan aelodau eraill o'r tîm fel rhan o grŵp Sicrhau Ansawdd.
- Cyflwyno ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth (EBI) i blant a theuluoedd sy'n eu galluogi i reoli eu bywydau gan sicrhau diogelwch y plentyn ar yr un pryd a monitro ansawdd a chywirdeb yr EBI lle y bo angen.
- Cadeirio ac arwain cyfarfodydd amlasiantaethol a chymryd rhan ynddynt
- Darparu cyngor a gwybodaeth broffesiynol ar ymchwil, ymarfer, ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gwneud penderfyniadau ymlaen llaw mewn ymarfer gwaith cymdeithasol a chynnig cyngor proffesiynol ar yr amrywiaeth eang o faterion sy'n dod i'r amlwg o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol Plant.
- Cynnig cymorth ym mhob maes o reoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.
- Cymryd rhan mewn gweithio amlddisgyblaethol effeithiol gydag asiantaethau partner.
- Darparu hyfforddiant i'r tîm ehangach ar ddulliau a all sicrhau newid ymhlith plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ac uwchsgilio staff o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gofal Cymdeithasol Plant.
- Cynnal datblygiad personol a phroffesiynol i fodloni gofynion newidiol y swydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu priodol

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Uwch-ymarferydd -– Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a CEF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Meddu ar gymhwyster proffesiynol naill mewn Gwaith Cymdeithasol neu Brawf.<br>• Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu gyfwerth.<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus fel sy'n ofynnol ar gyfer cofrestriad parhaus. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes diogelu plant a/neu wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.<br>• Profiad helaeth o weithio gyda theuluoedd ag anghenion cymhleth a rheoli materion risg.<br>• Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc gan gynnwys Deddf Plant 1989 a 2004; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014; Deddf Trosedd ac Anhrefn 1989; Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012<br>• Profiad helaeth o gyflawni tasgau rheoli achosion cymhleth gan gynnwys asesu, cynllunio ymyriadau a darparu.<br>• Profiad helaeth o reoli risg a chefnogi eraill i nodi ffactorau risg a ffactorau amddiffynnol dilynol. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol.<br>• Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu.<br>• Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau.<br>• Gallu darparu perthnasoedd gwaith adeiladol gyda chydweithwyr ac asiantaethau.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da, gan gynnwys cyfathrebu wyneb yn wyneb a gwaith ysgrifenedig.<br>• Sgiliau TG effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfryngau cyfathrebu sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth a chynnal cofnodion seiliedig ar gyfrifiaduron yn unol â gofynion y llywodraeth<br>• Gallu ymdrin â materion sensitif, rheoli barn a disgwyliadau croes ac ymdopi â materion ac ymddygiad anrhagweladwy.<br>• Gallu dangos ymroddiad i amddiffyn plant a phobl ifanc a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharch ar gyfer ieithoedd, crefyddau a diwylliannau eraill.<br>• Gallu cyflwyno adroddiadau a gwybodaeth<br>• Gallu deall gwybodaeth gymhleth. | Ydy<br>Ydy<br><br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy<br><br>Ydy<br>Ydy<br>Ydy | **Sgiliau a Rhinweddau Personol** |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (Parhad)** | • Gallu meddwl yn glir a dangos sgiliau trefnu da.<br>• Gallu diffinio a chyflawni targedau.<br>• Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd.<br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |